

Arolygiad o Wasanaethau Plant Cyngor Sir Powys

Cynnwys	Tudalen
Cyflwyniad	4
Trosolwg o'r canfyddiadau	4
Gwelliannau ers yr arolygiad diwethaf	5
Meysydd i'w datblygu	5
Camau nesaf	6
Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth	7
Asesu	9
Gofal a chymorth chynllunio llwybrau	11
Diogelu	15
Arwain a llywodraethu	18
Methodoleg	22
Cydnabyddiaethau	22

Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o wasanaethau plant yng Nghyngor Sir Powys (y Cyngor) yn ystod mis Hydref 2018. Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn dilyn arolygiad blaenorol ym mis Gorffennaf 2017 a nododd bryderon difrifol ynghylch y ffordd yr oedd y Cyngor yn darparu gwasanaethau plant a oedd yn arwain at ganlyniadau gwael i blant a'u teuluoedd.

Roedd ein harolygiad yn seiliedig ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canlyniadau llesiant cysylltiedig a amlinellir yn nogfen Llywodraeth Cymru, Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth (Mawrth 2016).

Aeth yr arolygiad dilynol hwn ati i ystyried tystiolaeth o welliannau a wnaed, a capasiti'r Cyngor i barhau i wella drwy ddadansoddi'r arweinyddiaeth a llywodraethu o swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol. Aeth yr arolygiad ati i adolygu gwasanaethau cymorth cynnar i blant a theuluoedd, ansawdd ac amseroldeb asesiadau a'r gwasanaethau gofal a chymorth a ddarperir. Drwy gydol yr arolygiad, canolbwyntiwyd ar brofiad a chanlyniadau plant sy'n cael cymorth o fewn eu teuluoedd neu blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Bu'r arolygwyr yn darllen ffeiliau achos a, lle y bo'n bosibl, gwnaethant siarad â phlant a'u rhieni. Gwnaethom gyfweild â staff, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner.

Trosolwg o'r canfyddiadau

Rydym yn cydnabod y gwaith caled a wneir gan bawb sy'n gysylltiedig â gwasanaethau plant Cyngor Sir Powys i ysgogi, cefnogi a darparu gwasanaethau gwell. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r datblygiadau a'r gwelliannau a welsom yn ystod yr arolygiad ac yn cyfeirio at gynlluniau'r awdurdod lleol a ddylai, os ydynt yn effeithiol, sicrhau gwelliannau pellach i'r gwasanaethau a ddarperir i blant a'u teuluoedd sy'n byw ym Mhowys. Mae rhaid i'r awdurdod lleol ddatblygu cyfeiriad strategol clir a'i roi ar waith drwy gyfrwng fframwaith gweithredol cydlynol ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n cael ei ddeall a'i fod yn berchen gan y gweithlu a phartneriaid allweddol. Yn benodol, gwelsom nad oedd dealltwriaeth gyffredin ymhlith staff nac asiantaethau partner ynghylch y ffordd y mae'r awdurdod lleol yn mynd ati i ddatblygu gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau ataliol. Mae trosiant parhaus y gweithlu a threfniadau dros dro ar gyfer rheolwyr canol wedi bod yn ffactorau allweddol sydd wedi effeithio ar gyflymder y newidiadau.

Gwelsom fod rhai gwelliannau wedi'i gyflawni gan wasanaethau plant y Cyngor mewn rhai meysydd ymarfer a rhywfaint o welliant mewn agweddau eraill. Ond mae parhau i fod meysydd ymarfer eraill lle mae gennym bryderon difrifol.

Gwelliannau ers yr arolygiad diwethaf

- Mwy o oruchwyliaeth gorfforaethol o wasanaethau plant, gan gynnwys arwyddion o waith herio a dylanwadu gwell drwy'r broses graffu.
- Cyfranogiad o'r newydd gan uwch reolwyr yn y bwrdd diogelu rhanbarthol ac ailactifadu'r grŵp gweithredol diogelu lleol a'r grŵp rianta corfforaethol.
- Datblygiad fframwaith sicrhau ansawdd, gydag adnoddau yn cael eu neilltuo ar gyfer y swyddogaeth hon a gwybodaeth am berfformiad ar gael nawr er mwyn helpu rheolwyr i gyflawni eu dyletswyddau goruchwyllo a chefnogi'r agenda wella
- Dylai'r polisïau ac arferion newydd a diwygiedig sydd wedi'u datblygu mewn sawl maes roi mwy o eglurder i weithwyr cymdeithasol a phartneriaid
- Haws cael mynediad i 'ddrws ffrynt' gwasanaethau plant a gwelliannau o ran amseroldeb ac ansawdd y penderfyniadau cychwynnol a wneir drwy drefniadau goruchwyllo cryfach ymhlith rheolwyr.
- Mae'r penderfyniad i gyd-leoli'r Tîm o Amgylch y Teulu â Pobl Uniongyrchol Powys (PUP) yn gyfle i gyfeirio unigolion yn uniongyrchol at wasanaethau cymorth cynnar.
- Mae timau asesu wedi'u sefydlu ac mae rhai arwyddion o welliannau o ran amseroldeb ac ansawdd yr asesiadau.
- Gwelliant o ran amseroldeb ac ansawdd ceisiadau am orchmynion llys mewn perthynas â phlant.
- Gwelliannau o ran rheoleidd-dra ymweliadau â phlant sy'n derbyn gofal ac sydd ar y gofrestr amddiffyn plant.
- Gostyngiad yn llwythi gwaith unigolion a threfniadau goruchwyllo staff mwy rheolaidd.

Meysydd i'w datblygu

Mae'r adroddiad yn nodi nifer o feysydd y mae angen eu datblygu'n barhaus; y meysydd â blaenoriaeth y mae angen cymryd camau mewn perthynas â nhw yn ein barn ni yw:

- Sicrhau bod gweledigaeth strategol glir er mwyn cyfeirio'r broses gynllunio gyffredinol a darparu gwasanaeth di-dor i blant a theuluoedd, gan ymgorffori cymorth cynnar effeithiol a gwasanaethau cymorth i deuluoedd ochr yn ochr ag ymyriadau statudol.
- Ffocws cliriach ar wella cydberthnasau strategol â phartneriaid er mwyn ymgymryd â mwy o waith cydweithredol er budd plant a theuluoedd.
- Datblygu strategaeth gomisiynu ac ymarfer gwaith cymdeithasol er mwyn rhagweld anghenion llety plant, lleihau nifer y lleoliadau brys a galluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd i gael mynediad at amrywiaeth ddigonol o lety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn agos at eu cartref yn fwy effeithiol. Lleihau nifer y plant a leolir heb ddarpariaeth addysgol y cytunwyd arni.

- Sicrhau bod y broses ddiogelu yn cynnwys trefniadau rhannu gwybodaeth amlasiantaeth cyn gynted â phosibl ar ôl yr atgyfeiriad er mwyn sicrhau ymarfer gwybodus a'r canlyniadau gorau i blant. Sicrhau bod ymateb amlasiantaeth uniongyrchol i ddiogelu plant sy'n wynebu risg y gallai rhywun gamfanteisio'n rhywiol arnynt.
- Sicrhau bod cwynion yn cael eu hymchwilio'n drylwyr ac yn amserol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Cynlluniau presennol yr awdurdod lleol i ailstrwythuro gwasanaethau plant, rhoi'r dull arwyddion diogelwch ar waith a llunio strategaeth gydlynol ar gyfer cymorth cynnar a chymorth i deuluoedd a allai gael effaith gadarnhaol ar sawl un o'r meysydd a amlinellwyd uchod.

Camau nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r Cyngor adolygu ei gynllun gwella presennol mewn ymateb i'r meysydd i'w datblygu a nodir yn yr adroddiad hwn o fewn 20 diwrnod gwaith i'w gyhoeddi. O ganlyniad i'r meysydd o bryder difrifol a nodwyd yn yr arolygiad hwn, bydd AGC yn parhau i fynd ati i fonitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir drwy gwblhau gweithgarwch â ffocws yn chwarterol. Byddwn yn ystyried cynnal arolygiad pellach o wasanaethau plant 12-18 mis o ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

1. Trefniadau mynediad: gwybodaeth, cyngor a chymorth

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae'r awdurdod yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu, deall, cydlynu, diweddarau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau gwybodaeth, cymorth a chyngor sydd ar gael yn eu hardal yn y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat. Gall pawb, gan gynnwys gofalwyr, gael gafael ar wybodaeth gynhwysfawr am wasanaethau a chael cyngor a chymorth yn gyflym, gan gynnwys gwybodaeth am eu cymhwysedd a'r ymateb y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae trefniadau effeithiol ar waith i oedi neu atal yr angen am ofal a chymorth. Mae pobl yn ymwybodol o bwyntiau cyswllt allweddol ac yn gallu eu defnyddio'n hawdd. Mae'r gwasanaeth yn gwrando ar bobl ac yn dechrau gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae trefniadau cyfeirio effeithiol yn rhoi dewis i bobl o ran y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, yn enwedig gwasanaethau ataliol. Mae partneriaid yn deall y trefniadau ar gyfer cael mynediad at wasanaethau cymdeithasol statudol ac mae'r bobl sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 1.1 Mae trefniadau rheoli PUP wedi'u hatgyfnerthu. Dyma'r 'drws ffrynt' i wasanaethau cymorth cynnar a gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae problemau blaenorol o ran capasiti a hygyrchedd wedi gwella ac wedi arwain at benderfyniadau mwy amserol a gwybodus yn sgil cysylltiadau cychwynnol gan deuluoedd sy'n gofyn am gymorth neu weithwyr proffesiynol sy'n codi pryderon.
- 1.2 Roedd dogfen drothwy ranbarthol wedi'i chyflwyno ers ein harolygiad diwethaf a chafodd groeso cynnes gan wasanaethau plant. Mae angen datblygiadau pellach er mwyn gallu deall y trothwyon i'w rhannu ag asiantaethau atgyfeirio. Er bod rhai asiantaethau o'r farn bod pryderon a godwyd gyda gwasanaethau plant ddim pob amser yn cael eu hateb yn ddigonol, roedd staff PUP o'r farn eu bod yn cael eu gofyn i ymyrryd â theuluoedd yn ddiangen weithiau. Mae hyn yn parhau i fod yn faes sydd angen datblygiad ymhellach, er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithlon a bod ymateb priodol yn cael ei roi i risgiau ac anghenion.
- 1.3 Ers ein harolygiad diwethaf, roedd y Tîm o Amgylch y Teulu wedi symud ac yn cael ei gydleoli bellach gyda PUP. Yn sgil hyn, roedd y broses gyfeirio uniongyrchol wedi dechrau gwella ac roedd mwy o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd nifer y teuluoedd a oedd yn cael eu hatgyfeirio yn is o hyd na'r hyn yr oedd yr uwch reolwyr wedi'i ragweld ac roedd angen rhoi sylw pellach i'r trothwyon rhwng y gwasanaethau. Roedd cymorth gweithredol annigonol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn parhau i fod yn broblem; er enghraifft, nid oedd gwasanaethau cymdeithasol yn mynychu paneli TAF bob amser. Nodwyd bod

diffyg hyder, cyfathrebu a dealltwriaeth broffesiynol rhwng gweithwyr cymdeithasol rheng flaen a chydweithwyr yn y trydydd sector, a waethygyd gan y trosiant o ran staff gwasanaethau plant.

- 1.4 Rydym yn ymwybodol o strategaeth i ddatblygu ystod well a mwy cydlynol o wasanaethau cymorth i deuluoedd; gan gynnwys cymorth cynnar, ymylon gofal, Gwasanaeth Anabledd Integredig, a Thîm Integredig Cymorth i Deuluoedd. Nid yw'r strategaeth hon wedi'i rhoi ar waith eto ond gallai sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth llawer gwell os caiff adnoddau addas eu neilltuo ar ei chyfer ac os caiff ei chefnogi gan gydweithredu amlasiantaethol cadarn.

2. Asesu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae pawb sydd â'r hawl i gael asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth yn cael asesiad yn eu hiaith ddewisol. Mae pob gofalwr sy'n ymddangos fel pe bai ganddo anghenion cymorth yn cael cynnig asesiad o anghenion, ni waeth pa fath o ofal a ddarperir, ei sefyllfa ariannol na'r lefel o gymorth a all fod ei hangen. Caiff anghenion pobl eu hasesu'n amserol sy'n hybu eu hannibyniaeth a'u gallu i wneud dewisiadau. Mae asesiadau'n ystyried canlyniadau personol a barn, dymuniadau a theimladau'r person sy'n cael ei asesu a phobl eraill berthnasol, gan gynnwys y rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni. Gwneir hyn i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol ac yn hybu eu llesiant a'u diogelwch eu hunain a llesiant a diogelwch pobl eraill. Mae asesiadau'n rhoi dealltwriaeth glir o'r hyn fydd yn digwydd nesaf ac yn arwain at gynllun sy'n berthnasol i'r anghenion a nodir. Caiff camau gweithredu a argymhellir, a gynlluniwyd i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl, eu nodi ac maent yn cynnwys yr holl gamau a all gael eu cymryd drwy wasanaethau cymunedol neu ataliol yn ogystal â gwasanaethau arbenigol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 2.1 Roedd mwy o asesiadau wedi eu cwblhau o fewn 42 diwrnod nag ar adeg yr arolygiad diwethaf, sydd yn welliant. Mae'n gymesur i gwblhau rhai asesiadau yn gyflymach ond nid oedd y gwelliannau a wnaed yn gynharach yn y flwyddyn wrth gwblhau asesiadau mewn amserlen fyrrach wedi eu cynnal. Dylai uwch reolwyr sicrhau bod asesiadau'n cael eu cwblhau cyn gynted ag sy'n briodol i gymhlethdod yr anghenion dan sylw, fel nad yw plant yn aros yn ddiangen i asesiad gael ei gwblhau.
- 2.2 Roedd tua thraen o'r asesiadau gwaith cymdeithasol a adolygwyd gennym yn cynnwys gwaith casglu gwybodaeth da a dadansoddiad cryf ac roedd rhai ohonynt yn dangos bod y rheolwr llinell wedi dilyn proses gymeradwyo drylwyr. Mae hwn yn faes lle gwelir gwelliant sylweddol ac mae'n bosibl mai'r broses o sefydlu timau asesu penodedig sy'n gyfrifol am hynny. Sefydlwyd pwyntiau trosglwyddo clir.
- 2.3 Fodd bynnag, nid oedd gwelliannau yn amlwg bob amser. Nid oedd rhai asesiadau yn rhoi ystyriaeth ddigonol i hanes y plentyn, lefelau risg a'r angen i weithredu'n gyflym. Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i effaith trais domestig neu ymddygiad arall gan riant ar y plentyn. Roedd cyfleoedd i ddefnyddio'r asesiad er mwyn galluogi'r teulu i fyfrio ar y ffordd y gallent wneud pethau'n wahanol yn cael eu fethu'n aml. Weithiau, roedd asesiadau o frodyr/chwirydd gyda'i gilydd yn esgeuluso anghenion unigol un

plentyn ac yn tynnu sylw at anghenion y llall. Roedd diffyg dadansoddi cadarn o'r wybodaeth a gyflwynwyd yn golygu bod rhai plant yn cael eu gadael yn agored i niwed neu'n annhebygol o gael y cymorth yr oedd ei angen fwyaf arnynt.

2.4 Mewn llawer o achosion, nid oedd dogfennau asesu yn nodi dymuniadau a theimladau'r plentyn. Codwyd y mater hwn yn yr arolygiad diwethaf. Weithiau, roedd llyfrynnau yn cael eu gadael gyda phlentyn yn gofyn iddynt nodi'r 'hyn sy'n bwysig', heb unrhyw ymgysylltiad uniongyrchol gan y gweithiwr cymdeithasol. Roedd y broses o gofnodi a dadansoddi cryfderau ac anghenion plant unigol a'u teuluoedd, ac felly'r broses o nodi'r gofal a'r cymorth yr oedd eu hangen arnynt, yn anghyson. Roedd tystiolaeth nad oedd plant bob amser yn cael eu hailasesu pan roedd eu hamgylchiadau yn newid er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gael y gofal a'r cymorth mwyaf addas.

2.5 Ar y cyfan, roedd ansawdd yr asesiadau a welwyd yn rhy anghyson o hyd ac mae angen gwelliannau pellach. Mae'n rhaid i drefniadau goruchwylio rheolwyr ganolbwyntio i'r un graddau ar ansawdd yr asesiadau a'u hamseroldeb.

3. Gofal a chymorth a chynllunio llwybrau

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae pobl yn cael gofal, cefnogaeth, help a diogelwch amlasiantaethol amserol ac effeithiol lle bo hynny'n briodol. Caiff pobl sy'n defnyddio gwasanaethau eu cefnogi gan gynlluniau gofal a chymorth sy'n hybu eu hannibyniaeth, eu dewis a'u llesiant, yn helpu i'w cadw'n ddiogel ac yn adlewyrchu'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt. Caiff pobl eu helpu i ddatblygu eu galluoedd a goresgyn rhwystrau i gynhwysiant cymdeithasol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 3.1 Roedd gan lai o blant gynlluniau gofal a chymorth nag ar adeg yr arolygiad diwethaf. Er i ni weld rhai cynlluniau da iawn a oedd yn dangos ymyrraeth yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ni welsom welliant o ran cynlluniau gofal a chymorth ers yr arolygiad diwethaf. Aeth y Cyngor ati i gynnal ei archwiliad ei hun o ffeiliau, a daeth i'r un casgliadau â ni. Mewn nifer fach o achosion, gofynnodd yr arolygwyr am eglurhad a sicrwydd pellach gan uwch reolwyr yn ystod yr arolygiad bod camau wedi'u cymryd mewn perthynas â materion a nodwyd ganddynt.
- 3.2 Yn aml, gwelsom nad oedd y cynlluniau yn nodi'r canlyniadau yr oedd y plentyn a'r rhieni yn dymuno eu gweld, na'u dymuniadau, eu teimladau a chryfderau o fewn y teulu. Nid yw hyfforddiant staff ar ganlyniadau wedi cael effaith sylweddol ar ymarfer. Yn aml, roedd y cynlluniau yn gyffredinol, yn cael eu hysgogi gan dasgau ac ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd o waith uniongyrchol a allai hwyluso newid mewn materion emosynol ac ymddygiadol sylfaenol, gan wella canlyniadau i blant. Nid oedd y cynlluniau yn nodi amserlenni ar gyfer camau gweithredu neu feini prawf llwyddiant fel mater o drefn.
- 3.3 Nid oedd y cynlluniau yn adlewyrchu canfyddiadau'r asesiad bob amser. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y trosiant o weithwyr cymdeithasol. Nid oedd y cynlluniau yn helpu gweithwyr newydd i ddeall yr anghenion a'r risgiau o fewn y teulu bob amser. Gwelsom enghreifftiau o'r anawsterau a wynebwyd gan weithwyr cymdeithasol wrth ymdrin â phlant mewn amgylchiadau teuluol cymhleth, yn aml ar ôl sawl newid i'r gweithiwr cymdeithasol a'r rheolwr tîm a llithriant ac oedi blaenorol. Hefyd, nid oedd y system rheoli achosion electronig yn helpu gweithwyr cymdeithasol i gael trosolwg o ddigwyddiadau ac, yn aml, nid oedd y cronolegau yn gyfoes. Mae'r canllawiau ymarfer ar gynnal cronolegau, a gyflwynwyd yn ddiweddar, yn ddatblygiad cadarnhaol.
- 3.4 Nodwyd ffeiliau lle nad oedd penderfyniadau wedi'u cofnodi; mae hyn yn hanfodol i blant sydd am ddeall eu hanes yn ddiweddarach mewn bywyd ac er

mwyn sicrhau ymarfer proffesiynol gwybodus. Nid oedd cofnodion cyfarfodydd cynllunio cyfreithiol yn cael eu cadw ar ffeiliau plant yn aml ac roedd diffyg eglurder ynghylch ble'r oedd y cofnodion yn cael eu storio.

- 3.5 Roedd swyddogion llesiant yn gwneud rhywfaint o waith uniongyrchol da gyda theuluoedd, ond ychydig iawn o wasanaethau cymorth i deuluoedd oedd ar gael i'r gweithwyr cymdeithasol eu defnyddio. Nid oedd gwasanaethau gofal 'camu i lawr' ac ymylon gofal wedi'u datblygu'n ddigonol ac nid oeddent yn cael eu defnyddio ddigon. Nid oedd y staff gwaith cymdeithasol yn hyderus y byddai gwasanaethau yn effeithiol. Roedd pryderon ynghylch capasiti ac oedi posibl yn golygu bod llai o ymddiriedaeth rhwng asiantaethau ac, ar y cyfan, nid oedd dealltwriaeth glir ynghylch gwasanaethau.
- 3.6 Dylai'r cynllun ar gyfer comisiynu gwasanaethau cymorth gwell, a amlinellir yn yr adran Mynediad o'r adroddiad hwn, fod o fudd o ran y materion y tynnwyd sylw atynt. Nodwyd hefyd fod angen mwy o ymwybyddiaeth o wasanaethau asesu a therapiwtig arbenigol a gwell mynediad atynt. Ymddengys nad oedd y wybodaeth hon ar gael yn systematig gan banel a sefydlwyd i hwyluso mynediad at adnoddau.
- 3.7 Roedd mwy o blant yn derbyn gofal gan y Cyngor nag ar adeg yr arolygiad diwethaf. Mae'r uwch farnwriaeth yn ystyried bod ansawdd y ceisiadau a wnaed gan yr awdurdod lleol i'r llysoedd teulu wedi gwella dros y 18 mis diwethaf. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch cyfleoedd a gollwyd i ymyrryd yn gynnar a'r gordddefnydd o geisiadau brys. Gwelsom enghreifftiau pellach o hyn yn ystod ein harolygiad, ynghyd ag achosion o oedi rhwng gwneud penderfyniadau i wneud cais am orchymyn gofal a chamau gweithredu.
- 3.8 Roedd y plant sy'n derbyn gofal yn fwy tebygol o gael ymweliadau rheolaidd ac amserol gan eu gweithiwr cymdeithasol nag ar adeg yr arolygiad diwethaf. Mae'r rheolwr wedi rhoi pwyslais sylweddol ar yr agwedd hon ar berfformiad a chyflawnwyd gwelliannau sylweddol. Yn aml, roedd y plant wedi profi nifer o newidiadau mewn gweithwyr cymdeithasol a oedd wedi eu hatal rhag cynnal cydberthnasau ystyrlon.
- 3.9 Roedd y Cyngor wedi cynyddu nifer y Swyddogion Adolygu Annibynnol a oedd ar gael yn ddiweddar ac roedd yn datblygu data ar berfformiad ar gyfer cyfarfodydd adolygu a grwpiau craidd: nid oedd y data hyn ar gael eto. Roedd y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn ymdrechu i weld y plant cyn yr adolygiad, er bod hyn yn aml yn digwydd yn union cyn y cyfarfod. Yn gyffredinol, nid oedd swyddogaeth y Swyddogion Adolygu Annibynnol i ddarparu her ac atal llithriant wedi'i datblygu'n ddigonol er bod y Cyngor wedi diwygio'r polisi o uwchgyfeirio pryderon y Swyddogion. Dylai'r uwch reolwyr sicrhau bod y staff a'r rheolwyr yn deall swyddogaeth y Swyddog Adolygu Annibynnol yn llawn. Gwelsom hefyd nad

oedd rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol wedi'i datblygu'n ddigonol ychwaith o ran y cyfraniad y gallai'r swyddogion ei wneud i waith sicrhau ansawdd a rhianta corfforaethol. Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cwblhau ffurflenni monitro unigol ond nid oeddent yn gwybod a oedd y rhain yn cael eu casglu a'u dadansoddi er mwyn nodi themâu a gwersi i'w dysgu.

3.10 Roedd y bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw a oedd wedi gadael gofal yn gwerthfawrogi eu cynghorwyr personol a'r cyngor a'r cymorth ymarferol a roddwyd iddynt. Roeddent o'r farn y gellid gwneud mwy er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliadau a darparu mynediad at therapi. Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ailsefydlu tîm penodedig ar gyfer y sawl sydd wedi gadael gofal/16+, y nodwyd ei fod yn ddiffyg yn ystod ein harolygiad diwethaf. Roedd y cynghorwyr personol yn teimlo fel pe baent wedi'u hynysu'n broffesiynol mewn timau gofal plant cyffredinol, heb fynediad at arbenigedd rheolwyr llinell. Roedd yr uwch reolwyr yn derbyn eu bod wedi parhau i 'golli golwg' ar y sawl a oedd wedi gadael gofal, yn strategol ac yn weithredol, ers yr arolygiad diwethaf. Roedd cynllun i olrhain pobl ifanc gymwys ailadrodd y cymorth a gynigiwyd iddynt eto ond nid oedd wedi cael ei roi ar waith eto.

Comisiynu a dod o hyd i leoliadau

3.11 Mae angen cryn dipyn o waith i ddatblygu fframwaith comisiynu strategol cydlynol a phroses ar gyfer dod o hyd i leoliadau. Ychydig iawn o gynnydd adnabyddus i gyflawni hyn a welwyd yn ystod yr arolygiad, er bod y cyfarwyddwr wedi nodi hyn fel maes blaenoriaeth ac wedi dechrau'r broses o gyfuno tîm comisiynu plant gyda'r tîm comisiynu oedolion.

3.12 Roedd traean o'r plant a oedd yn derbyn gofal wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal awdurdod lleol; er ein bod yn cydnabod, oherwydd maint Powys, y gall plentyn fod yn agosach i gartref mewn awdurdod cyfagos na phe bai wedi'i leoli ym mhen pellaf y sir. Rydym hefyd yn cydnabod bod diffyg lleoliadau preswyl ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr uwch reolwyr wedi cymryd unrhyw gamau eto i wneud mwy o ddefnydd o'r 13 o gartrefi plant ym Mhowys sy'n cael eu rhedeg gan ddarparwyr preifat. Anaml y caiff y rhain eu defnyddio ar gyfer plant ym Mhowys nac i gomisiynu datblygiad lleoliadau i ddiwallu anghenion penodol.

3.13 Roedd yr awdurdod lleol yn ystyriol o nifer y plant sydd wedi symud lleoliad dair gwaith neu fwy o fewn 12 mis, sydd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd yr uwch reolwyr yn ymwybodol bod angen iddynt ddatblygu proses fwy cadarn ar gyfer paru plant â lleoliadau maethu hirdymor. Roedd lleoliadau wedi methu lle y gellid bod wedi rhagweld nad oedd y gofalwyr yn gallu diwallu anghenion y plant. Mae hyn wedi arwain at gofalwyr ymddiswyddo.

Roedd cydnabyddiaeth nad yw'r Cyngor yn rhoi digon o gymorth i'w ofalwyr maeth.

- 3.14 Roedd arwyddion bod y broses o ddod o hyd i leoliadau yn llai systematig a chadarn dros y flwyddyn ddiwethaf. Nid oedd digon o adnoddau ar gael ar gyfer ymgymryd â'r dasg arbenigol o ddod o hyd i leoliadau a monitro contractau. Roedd yn rhaid i'r gweithwyr cymdeithasol dreulio cryn dipyn o amser yn chwilio am leoliadau ac nid oedd hynny'n rhan o'u rôl. Hysbyswyd inni nid oedd y Cyngor wedi gwneud digon o ddefnydd o bartneriaeth y fframwaith comisiynu cenedlaethol yn ystod misoedd blaenorol. Roedd hyn yn golygu bod mwy o blant wedi cael eu lleoli mewn lleoliadau preswyl heb iddynt gael y sicrwydd ansawdd a ddarparwyd gan y fframwaith comisiynu. Nid oeddem yn hyderus bod gan y Cyngor broses ffurfiol i roi sicrwydd iddo'i hun o ansawdd lleoliadau unwaith yr oedd plentyn wedi'i leoli. Soniwyd wrthym am gamau a gymerwyd yn ddiweddar iawn i adolygu'r arferion hyn a sicrhau bod y rheolwyr yn goruchwyllo'r system yn fwy effeithiol.
- 3.15 Roedd rhai plant wedi cael eu lleoli mewn argyfwng, ac efallai na fyddai hyn wedi bod yn ofynnol pe bai cymorth ychwanegol wedi bod ar gael i rieni neu ofalwyr presennol. Mewn rhai achosion, byddai ymyrraeth gynharach fwy effeithiol wedi atal argyfyngau diweddarach lle nad oedd gan y Cyngor unrhyw opsiwn arall ond lleoli'r plentyn neu ei symud o un lleoliad i'r llall.
- 3.16 Roedd rhai o'r plant wedi cael eu lleoli heb gynllun ac ychydig iawn o wybodaeth a roddwyd i'r gofalwyr ynghylch y person ifanc a'i anghenion. Roedd yr uwch reolwyr yn derbyn bod lleoliadau brys yn aml yn cael eu trefnu heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer addysg y plentyn. Gwelsom enghreifftiau o blant nad oeddent wedi cael addysg am sawl mis. Byddai'r arfer a'r penderfyniadau hyn wedi cynyddu'r tebygolrwydd y byddai'r lleoliad yn methu, gydag effaith ganlyniadol ar lesiant, cyrhaeddiad addysgol a chanlyniadau hirdymor y plentyn.
- 3.17 Roedd gan banel mynediad at adnoddau, a sefydlwyd yn ddiweddar, friff eang a oedd yn gorgyffwrdd â swyddogaeth y panel lleoliadau amlasiantaeth. Mae angen gwelliannau o ran eglurder penderfyniadau er mwyn sicrhau bod hyn yn seiliedig ar yr anghenion unigol a nodwyd, gan ddefnyddio asesiadau arbenigol lle y bo'n briodol.
- 3.18 Nododd yr awdurdod lleol ei fod yn wynebu her barhaus i gyflawni arfer cofnodi amserol a chywir. Mae rhai problemau gyda'r system rheoli achosion electronig yn broblemau cenedlaethol. Soniwyd wrthym am broblemau TGCh eraill a oedd wedi arwain at gollu cofnodion ac aneffeithlonrwydd arall. Roedd y Cyngor yn mynd i'r afael â hyn.

4. Diogelu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae strategaethau diogelu lleol effeithiol yn cyfuno elfennau ataliol ac amddiffynnol. Lle bo pobl yn cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio, neu'n wynebu risg o hynny, maent yn derbyn ymatebion amlasiantaeth brys a gaiff eu cydlynu'n dda. Mae camau gweithredu sy'n deillio o gynlluniau diogelwch neu reoli risg yn llwyddo i leihau risgiau gwirioneddol neu bosibl. Ni chaiff pobl eu gadael mewn amgylcheddau anniogel na pheryglus. Caiff polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn eu deall a'u gwreiddio'n dda ac maent yn helpu i sicrhau ymateb amserol a chymesur i bryderon sy'n dod i'r amlwg. Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn noddi diwylliant dysgu lle gellir ystyried newid perfformiad proffesiynol ac ymddygiad asiantaethau a'u gwella mewn ffordd agored ac adeiladol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 4.1 Caiff trafodaethau strategaeth cychwynnol eu cadw nawr gan staff y PUP a'r heddlu ac mae hyn wedi arwain at benderfyniadau cychwynnol cyflymach. Roedd problemau parhaus o ran argaeledd yr heddlu a'r rheolwr tîm lle'r oedd plant eisoes yn derbyn gofal a chymorth a arweiniodd at oedi wrth gynnal trafodaethau strategaeth am fod proses wahanol yn cael ei dilyn.
- 4.2 Aethom ati i adolygu sampl o ffeiliau achos ac, roedd yna cymysg yn ein canfyddiadau, yn unol ag archwiliad y Cyngor ei hun. Gwelsom enghreifftiau o asesiadau diogelu trylwyr a champau amserol ac effeithiol i ddiogelu plant. Yn yr un modd, gwelsom lithriant ac oedi, yn aml o ganlyniad i drosiant gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr tîm. Cafodd rhai o'r plant eu gadael yn agored i niwed am gyfnod hwy nag y dylent fod wedi gwneud. Soniodd y rhieni a'r plant wrthym eu bod wedi gorfod ailadrodd eu hanes wrth weithwyr cymdeithasol newydd a'u bod yn aml yn cael yr argraff nad oedd y gweithiwr cymdeithasol yn ymwybodol o fanylion pryderon a digwyddiadau blaenorol. O ganlyniad, roeddent yn ofni y byddai pethau yn cael eu colli a gwelsom rywfaint o dystiolaeth o hyn.
- 4.3 Gwelsom enghreifftiau o waith amlasiantaeth da, gan gynnwys cyfraniad y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Yn yr un modd, gwelsom oedi hir lle nad oedd modd cael gafael ar asesiadau arbenigol yn hawdd a diffyg creadigrwydd wrth feddwl am opsiynau eraill.
- 4.4 Ychydig iawn o gyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth yr oedd y Cyngor yn eu trefnu o hyd o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Codwyd y pwynt hwn yn flaenorol gydag uwch reolwyr ond nid oedd yr arfer wedi newid yn sylweddol. Roedd cynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd wedi mynd ati i weithio gyda'r Cyngor er mwyn chwarae mwy o ran yng nghampau cynnar y broses ddiogelu,

ond roedd angen adolygu hyn er mwyn sicrhau bod staff y bwrdd iechyd ar gael o fewn yr amserlenni angenrheidiol ar gyfer gweithdrefnau diogelu. Rydym yn parhau i bryderu ynghylch y diffyg gwybodaeth sy'n cael ei rhannu rhwng asiantaethau er mwyn llywio asesiadau a phenderfyniadau cyn cynadleddau achosion amddiffyn plant.

4.5 Yn ôl yr uwch reolwyr, roedd nifer fawr o asesiadau diogelu yn nodi nad oedd yr angen cysylltiad pellach â'r system ddiogelu. Bydd asesiadau diangen wedi cael effaith ar deuluoedd ac adnoddau. I'r gwrthwyneb, gall penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth anghyflawn fod yn anniogel. Roedd asiantaethau partner yn parhau i fynegi pryderon ynghylch arferion y Cyngor yn ystod yr arolygiad hwn.

4.6 Gwelwyd amrywiadau yn nifer y plant a gafodd eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae y Cyngor wedi cyflawni gwelliant sylweddol mewn perthynas ag amledd a rheoleidd-dra ymweliadau gweithwyr cymdeithasol i blant ar y gofrestr amddiffyn plant ers yr arolygiad diwethaf. Soniwyd wrthym am broblemau a oedd wedi arwain at ganslo cynadleddau amddiffyn plant ar fyr rybudd. Nid oedd y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn hyderus bod teuluoedd yn gweld adroddiadau gwaith cymdeithasol bob amser cyn cynadleddau ac roeddent yn cytuno â ni nad oedd cynlluniau gofal a chymorth amddiffyn plant yn aml yn rhoi digon o fanylion ynghylch yr hyn yr oedd ei angen gan rieni a'r canlyniad/newid yr oedd angen ei gyflawni.

4.7 Rydym yn parhau i bryderu am ymateb y Cyngor i blant sy'n wynebu risg y gallai rhywun gamfanteisio'n rhywiol arnynt. Nid yw'r awdurdod lleol yn gweithredu o fewn y llwybr y cytunwyd arno ar gyfer rheoli risg². Cynhaliwyd cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth yn fisol yn hytrach nag o fewn wyth diwrnod. Nid yw hyn yn ddigonol er mwyn rhoi cynlluniau diogelu ar waith a phenderfynu ar asesiadau diogelu a'r posibilrwydd o gynnal ymchwiliadau troseddol. Ni chafodd y cyfarfodydd camfanteisio'n rhywiol ar blant amlasiantaeth (MACSE), a gynhaliwyd bob deufis, eu cynnal yn unol â'r cylch gorchwyl rhanbarthol ac roeddent yn cyfrannu at oedi wrth ddiogelu pobl ifanc a oedd yn wynebu'r risg y gallai rhywun gamfanteisio'n rhywiol arnynt. Rydym wedi codi'r materion hyn gyda'r uwch reolwyr yn flaenorol ac rydym yn pryderu nad oedd newidiadau wedi'u gwneud cyn yr arolygiad. Rydym yn croesawu'r wybodaeth y bydd y Cyngor yn recriwtio swyddog pwrpasol i arwain gwelliannau yn y maes ymarfer hwn.

4.8 Roedd yr uwch reolwyr wedi bod yn ymwneud yn rhagweithiol â'r bwrdd diogelu rhanbarthol a'i is-grwpiau, ac roeddent yn darparu gwybodaeth am berfformiad angenrheidiol. Mae'r rhain yn welliannau ers yr arolygiad diwethaf. Roedd uwch

¹Llwybr Grŵp Gweithredol Lleol Powys ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

reolwyr y Cyngor ac asiantaethau eraill wedi sicrhau bod y grŵp diogelu aml-asiantaeth lleol hefyd yn llawer fwy effeithiol nag y bu'n flaenorol ac yn cynnig cyfleoedd parhaus i wella arfer a dealltwriaeth diogelu ar draws asiantaethau.

5. Arwain a llywodraethu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu'n cydymffurfio â chanllawiau statudol ac, ar y cyd, yn sefydlu strategaeth effeithiol i ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau o ansawdd da i bobl. Mae diwallu anghenion pobl am wasanaethau o ansawdd yn ffocws clir i gynghorwyr, rheolwyr a staff. Caiff gwasanaethau eu harwain yn dda, ceir cyfeiriad clir a chaiff newid ei arwain mewn ffordd gadarn. Mae rolau a chyfrifoldebau ym mhob rhan o'r sefydliad yn glir. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i roi help, gofal a chefnogaeth i bobl a chyflawni ei gyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Caiff pobl leol eu cynnwys yn effeithiol. Mae gan arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o ymarfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 5.1 Gwelsom fod llawer mwy o oruchwyliaeth gorfforaethol o wasanaethau plant. Yn amlwg, bydd angen cynnal yr ymwybyddiaeth a rennir o'r trawsnewid sydd ei angen ym maes gwasanaethau plant er mwyn cyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor a darparu gwasanaeth o ansawdd i blant a theuluoedd dros y tymor hwy ac yn wyneb her ariannol sylweddol. Roedd y Bwrdd Gwella a Sicrwydd, a gadeiriwyd gan unigolyn annibynnol, yn adnodd sylweddol ar gyfer Arweinydd y Cyngor. Bydd cydweithredu o fewn cyfarwyddiaethau a rhyngddynt yn hanfodol i lwyddiant yn y dyfodol.
- 5.2 Aeth y Cyngor ati i ailstrwythuro ei bwyllgorau craffu ym mis Mai 2018 er mwyn gwella eglurder a ffocws a chafodd yr aelodau gymorth a hyfforddiant allanol. Yn ôl adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru, roedd y broses o ddatblygu'r swyddogaeth graffu wedi bod yn araf ac awgrymwyd y dylid cynnal adolygiad o'r cysylltiadau rhwng gwaith craffu a'r cabinet er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth graffu o fewn y Cyngor.²
- 5.3 Dechreuodd cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol parhaol yn ei swydd ym mis Mai 2018, gyda phennaeth gwasanaethau plant parhaol yn dechrau yn ei swydd ym mis Hydref 2018. Mae'r ddau unigolyn yn ymgymryd â'r rolau am y tro cyntaf a byddant yn cael budd o gymorth parhaus. Caiff y prif weithredwr dros dro ei ddisodli gan brif weithredwr parhaol ar ddechrau 2019. Yn amlwg, mae'r swyddi hyn yn allweddol o ran sicrhau gwelliannau pellach a datblygiad gweledigaeth gyffredinol a chydlynol ar gyfer gwasanaethau plant, y tu hwnt i'r cynllun gwella.

² Trosolwg a Chraffu. Addas ar gyfer y Dyfodol? Medi 2018

- 5.4 Gwelsom enghreifftiau o waith partneriaeth da ar lefel achosion unigol. Nodwyd ymdrechion gan swyddog addysg i godi ymwybyddiaeth o drothwyon gwasanaethau cymdeithasol mewn ysgolion a hwyluso trefniadau gweithio proffesiynol gwell. Fodd bynnag, roedd consensws nad oedd gwaith partneriaeth wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd ar lefel strategol a soniodd y cyfarwyddwr fod ymrwymiad i gyflawni gwelliannau'n gyflym. Roedd cynrychiolwyr tai o'r farn bod tir wedi ei golli o ran gwaith cydweithredol ond gwelwyd arwyddion diweddar o gynnydd. Nid oedd y trydydd sector yn teimlo fel partner cyfartal â'r awdurdod lleol ac roedd lle i wella'r gwaith strategol a oedd yn cael ei wneud ar y cyd â'r sector iechyd.
- 5.5 Mae menter Dechrau Da yn brosiect cydweithredol sylweddol a ddylai ddod â buddiannau i wasanaethau cymorth cynnar yn yr awdurdod lleol yn y dyfodol. Mae rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn allweddol er mwyn hyrwyddo ac ysgogi trefniadau gweithio cydweithredol ac ystyried rhwystrau, a dylai fod yn gyfrwng effeithiol i hwyluso a chyfrannu at welliannau ym maes gwasanaethau plant.
- 5.6 Mae'r Cyngor wedi datblygu gwybodaeth helaeth am berfformiad ar gyfer gwasanaethau plant ac mae hwn yn welliant sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Gallai'r rheolwyr fod yn sicr ynghylch y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu, gan nodi meysydd i'w gwella ar sail unigol a thîm. Gwelwyd rhywfaint o dystiolaeth bod y rheolwyr yn fwy hyderus yn mynd i'r afael ag arferion gwael unigolion. Yn ddiweddar, nododd yr uwch reolwyr rai problemau gyda chywirdeb data a oedd yn destun adolygiad. Mae'r Cyngor wedi penodi swyddog polisi penodedig sy'n diwygio polisïau ac enghreifftiau o arfer da ac yn sicrhau eu bod yn fwy hygyrch i'r staff.
- 5.7 Roedd yr uwch reolwyr wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr mewn awdurdodau lleol eraill, i ryw raddau. Mae defnyddio cymorth ac adnoddau allanol i sicrhau y ceir y wybodaeth a'r ddealltwriaeth fwyaf posibl o brofiadau eraill yn faes y mae angen ei ddatblygu ymhellach ar lefel swyddogion ac aelodau.
- 5.8 Nodwyd bod y grŵp rhianta corfforaethol wedi'i ailsefydlu a bod aelodaeth y grŵp bellach yn drawsbleidiol. Roedd hyfforddiant wedi'i darparu i'r aelodau hyrwyddo mwy o effeithiolrwydd. Nododd y cadeirydd fod angen gwelliant pellach er mwyn sicrhau bod pob asiantaeth statudol yn mynychu'r grŵp yn gyson ac i greu llais i blant drwy sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynrychioli.
- 5.9 Mae gwasanaethau plant yn dal i ddibynnu ar nifer sylweddol o staff asiantaeth ar lefel gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr tîm. Roedd y gweithlu yn cynnwys mwy o staff na'r angen, gan sicrhau bod modd lleihau'r llwyth gwaith unigol cyfartalog yn ystod 2018. Yn seiliedig ar ddata ar awdurdodau lleol, roedd llwythi

gwaith y Cyngor yn gyson ag awdurdodau eraill yng Nghymru, er bod amrywiad ar draws timau. Er bod arafu o ran nifer y staff a oedd yn gadael gwasanaethau plant, roedd yr uwch reolwyr yn dal i ystyried y gweithlu yn *fregus*. Roedd nifer fechan o staff â phroblemau cymhwysedd neu ymddygiad wedi'u nodi, a'u cefnogi a herio a oruchwylir gan uwch reolwyr. Mae'r cyfarwyddwr yn bwriadu lleihau nifer y staff ychwanegol dros dro dros gyfnod o amser.

- 5.10 Roedd ymgynghoriad ar y broses o ailstrwythuro gwasanaethau plant ar fin cael ei gyflwyno i'r gweithlu. Y nod ar adeg yr arolygiad oedd creu timau â llai o swyddogaethau diffiniedig, caniatáu i weithwyr ganolbwyntio ar un maes gwaith a lleihau llwythi gwaith anghyfartal. Mae'r cyfarwyddwr yn credu y bydd yr ailstrwythuro yn helpu recriwtio'n sylweddol. Bydd yr ailstrwythuro hefyd yn galluogi'r cyfarwyddwr i gyflwyno trefniadau rheoli parhaol a dylai hyn ddarparu sicrwydd pellach i staff.
- 5.11 Ers yr arolygiad diwethaf, roedd yr uwch reolwyr wedi nodi model gwaith cymdeithasol sy'n cael ei gyflwyno fel dull gweithredu a rennir ar draws gwasanaethau plant. Mae'r dull arwyddion diogelwch yn fodel sefydledig ac mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn hyfforddi staff a rheolwyr. Mae'n hyrwyddo dull cydweithredol o weithio gyda theuluoedd, gan adeiladu ar eu cryfderau presennol. Os caiff ei weithredu'n gyson, a chyda sicrwydd ansawdd a goruchwyliaeth barhaus gan reolwyr, gallai fynd i'r afael â rhai meysydd ymarfer a nodwyd fel rhai i'w datblygu yn yr arolygiad hwn.
- 5.12 Mae'r Cyngor wedi gwella rheoleidd-dra trefniadau goruchwyllo staff yn sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Yn ôl ei archwiliad ei hun, mae trafodaethau goruchwyllo yn canolbwyntio'n ormodol ar dasgau. Gwelsom rai gwelliannau o ran manylion trafodaethau achos er mai cymysg oeddent ar draws ein sampl fach.
- 5.13 Dangosodd yr ymatebion a roddwyd gan y staff rheng flaen fod gwelliant wedi bod mewn morâl ers ein harolygiad diwethaf. Nododd y staff fod ymdeimlad cryf o waith tîm a chymorth gan gymheiriaid. Roedd y mwyafrif ohonynt yn teimlo bod eu rheolwyr llinell a'u huwch reolwyr yn eu cefnogi, er i leiafrif ohonynt nodi nad yw'r uwch reolwyr mor weladwy ag y byddent yn ei ddymuno. Nododd y mwyafrif ohonynt eu bod yn gallu ymdopi â'u llwyth gwaith. Roedd yr ymatebion yn debygol o fod wedi amrywio ar draws timau oherwydd effeithiau gwahanol swyddi gwag i staff a rheolwyr.
- 5.14 Er bod y rheolwyr tîm yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda, nid oedd y staff rheng flaen yn teimlo eu bod yn ddigon ymwybodol o'r datblygiadau yn y gwasanaeth. Nododd y staff fod mwy o gyfle i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi ac roeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith bod polisïau a gweithdrefnau wedi'u diwygio. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw ac a ymatebodd i'n harolwg ar-lein yn

gefnogol iawn i'r broses ailstrwythuro arfaethedig â'r broses o gyflwyno'r model arwyddion diogelwch.

- 5.15 Mae fframwaith sicrhau ansawdd wedi'i ddatblygu ers yr arolygiad diwethaf ac mae adnoddau wedi'u neilltuo i gefnogi'r broses o'i roi ar waith. Roedd yr archwiliadau o ffeiliau achos yn drylwyr, er nad oedd y diwylliant o reolwyr yn ymgymryd â gwaith archwilio rheolaidd fel rhan o'u rôl wedi'i ymgorffori'n llawn eto. Fel y nodwyd uchod, gallai'r Swyddogion Adolygu Annibynnol gyfrannu mwy at waith sicrhau ansawdd. Bydd y Cyngor yn dymuno sicrhau bod cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd yn cael ei dderbyn ar draws y gweithlu ac yn cael ei gysylltu'n strwythurol â dysgu sefydliadol er mwyn sicrhau ei fod yn cael yr effaith fwyaf posibl.
- 5.16 Nid oedd y bobl a oedd yn gwneud cwynion ynghylch gwasanaethau plant yn cael ymatebion amserol o ansawdd da yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac roedd arwyddion bod y sefyllfa wedi gwaethygu ers yr arolygiad diwethaf. Roedd ymdrechion i ddatrys materion yn lleol yn destun oedi sylweddol ac yn amrywio o ran ansawdd. Roedd nifer fawr o gwynion wedi'u trosglwyddo i ail gam y broses. Ni chafodd y rhain eu datrys o fewn y terfynau amser ychwaith ac roedd llawer ohonynt yn agored am sawl mis a rhai ohonynt am dros 12 mis. Prif destun y cwynion oedd oedi neu ddiffyg cyfathrebu gan y staff a'r rheolwyr. Byddai ymatebion hwyr gan y sawl a oedd yn ymchwilio i'r cwynion wedi ychwanegu at brofiad negyddol yr achwynwyr. Roedd y broses o ddysgu o gwynion yn ansystematig ac wedi'i datblygu'n wael. Bydd yr uwch reolwyr yn dymuno adolygu'r broses hon fel mater o flaenoriaeth.
- 5.17 Gwelwyd tystiolaeth bod pobl ifanc perthnasol yn cael cynnig gwasanaethau eirioli a bod yr asiantaeth a gomisiynwyd yn ceisio codi ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol ymhellach o'r 'cynnig rhagweithiol' i bobl ifanc. Roedd y Cyngor yn ymwybodol bod angen cryn dipyn o waith ychwanegol er mwyn sicrhau bod plant a theuluoedd yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch datblygu'r gwasanaeth a bod eu lleisiau yn cael eu clywed.

Methodoleg

Gwnaethom ddewis ffeiliau achos i'w holrhain a'u hadolygu o sampl o achosion.

Adolygwyd cyfanswm o 48 o ffeiliau achos, a dilynwyd 16 o'r rhain gyda chyfweliadau â gweithwyr cymdeithasol ac aelodau o'r teulu.

O ran pedwar o'r ffeiliau achos, gwnaethom gyfarfod â grŵp o weithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio gyda'r teulu.

Gwnaethom gyfweild ag amrywiaeth o gyflogaion yr awdurdod lleol, aelodau etholedig, uwch swyddogion, y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, y prif weithredwr dros dro a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill.

Cynhaliwyd arolwg o staff gofal cymdeithasol rheng flaen a derbyniwyd 84 o ymatebion.

Adolygwyd chwe ffeil goruchwylio staff a 18 o gofnodion goruchwylio. Edrychom ar sampl o dri chŵyn a gwybodaeth gysylltiedig.

Adolygwyd gwybodaeth am berfformiad ac amrywiaeth o ddogfennau perthnasol yr awdurdod lleol.

Gwnaethom gyfweild ag amrywiaeth o sefydliadau statudol ac asiantaethau partner o'r trydydd sector.

Y Tîm Arolygu

Prif Arolygydd: Denise Moultrie. Arolygwyr Cynorthwyol: Mike Holding, Katy Young a Tracey Shepherd.

Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i bawb a wnaeth roi o'u hamser a chyfrannu at yr arolygiad hwn: plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, staff, rheolwyr, aelodau, sefydliadau partner a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill.